Health and Care Research Wales Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

JBI
The Wales Centre For Evidence Based Care
A JBI Centre of Excellence

Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor
Prifysgol Bangor University
Bangor Institute for Health & Medical Research

Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau
CHEME
Centre for Health Economics and Medicines Evaluation

# Beth yw'r dull mwyaf effeithiol o gynnal hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (GBCG)? Adolygiad cyflym

Hydref 2024

Leona Batten, Greg Hammond, Clare England, David Jarrom, Elizabeth Gillen, Adrian Edwards, Alison Cooper, Nathan Davies, Elizabeth Doe, Ruth Lewis

## Cefndir

Mae'r Rhaglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (GBCG) yn annog '**trafodaethau bachog byr ar newid ymddygiad**' gyda defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'n defnyddio'r **rhyngweithio bob dydd** sy'n digwydd rhwng sefydliadau, unigolion a phobl eraill i'w cefnogi nhw **i roi newidiadau positif ar waith i'w hiechyd corfforol a meddyliol a lles**.

Tîm Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sydd wedi gofyn am a chefnogi'r adolygiad hwn.

## Nod yr adolygiad

I asesu **pa elfennau neu arddulliau cyflwyno o hyfforddiant GBCG sydd fwyaf effeithiol**, ac sydd orau gan hyfforddeion.

Gellir defnyddio'r canfyddiadau i:

- ddatblygu hyfforddiant yn y dyfodol
- diweddaru rhaglenni hyfforddiant cyfredol
- gwella cysondeb ar draws byrddau iechyd

## Sylfaen y dystiolaeth

Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth a oedd ar gael hyd at **fis Mehefin 2024**.

Roedd dyddiadau cyhoeddi tystiolaeth yn **amrywio rhwng 2013 a 2023**.

Nododd yr adolygiad hwn bod 11 o astudiaethau i'w cynnwys **(roedd 10 ohonyn nhw wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig)**.

## Prif Ganfyddiadau

Cafwyd **tystiolaeth gyson i ddangos bod hyfforddiant yn cynyddu hyder hyfforddeion a defnydd o dechnegau GBCG** yn syth ar ôl bod ar yr hyfforddiant.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod y **gwelliannau'n cael eu cynnal hyd at flwyddyn yn ddiweddarach.**

Doedd dim tystiolaeth ar yr effaith tymor hwy, (**byddai hyfforddiant gloywi yn ddefnyddiol**).

Hefyd, doedd dim tystiolaeth yn asesu a fyddai gwelliannau i hyder hyfforddeion a chymhwysedd yn cael unrhyw **effaith ar newid ymddygiad defnyddwyr gwasanaeth a deilliannau**.

**Cyflwyno'r hyfforddiant |** Hoffter

Roedd **awgrym y byddai hyfforddiant wyneb yn wyneb yn well na hyfforddiant ar-lein.**

Er hyn, roedd hyfforddiant ar-lein yn well gan rai hyfforddeion oherwydd hyblygrwydd.

**Mynd i hyfforddiant a'i ddefnyddio |** Rhwystrau

Ymhlith y rhwystrau rhag **pobl yn cymryd** rhanoedd:

- teimlad bod dim digon o **amser**
- diffyg **cefnogaeth gan reolwyr**

Ymhlith y rhwystrau rhag defnyddio oedd y teimlad y nodwyd uchod, a hefyd:

- pobl yn poeni am **aflonyddu cleifion**
- a **diffyg ymwybyddiaeth o wasanaethau eilaidd i gyfeirio** defnyddwyr y gwasanaeth atynt

## Goblygiadau Polisi

Gall hyfforddiant **fod o fudd o ran gwella hyder a chymhwysedd hyfforddeion** wrth ddefnyddio GBCG. Er hynny, mae rhwystrau'n cael eu hadrodd yn gyson, crynhowyd hyn uchod.

Nododd yr adolygiad hwn rhai ffyrdd posibl o **oresgyn y rhwystrau** hyn ond **mae'r ffyrdd gorau a mwyaf effeithiol yn parhau i fod yn aneglur**. Mae llawer yn gofyn am **newid diwylliant eang**.

Gallai diffyg tystiolaeth o ran yr **effaith ar ymddygiad a chanlyniadau** atal unrhyw ymgais i wneud newidiadau i hyfforddiant GBCG a diwylliant yn y gweithle.

Mae'r adolygiad hwn yn dangos **bod ffafriaeth o ran hyfforddiant safonol**, gan alluogi hyn i gael ei addasu i fodloni anghenion y gymuned leol.

## Bylchau yn y dystiolaeth

Mae angen ymchwil bellach o ran:

- effaith GBCG ar ymddygiad / canlyniadau **yn y tymor byr a hirdymor**
- **gweithredu, monitro a gwerthuso** hyfforddiant GBCG ar draws Cymru
- nodi dulliau i **oresgyn rhwystrau penodol ac i wella galluogwyr**

Mae'r adolygiad cyflym llawn, gan gynnwys Ystyriaethau Economaidd ar gael i'w **gweld yma.**